
Adolygiad o drwyddedu gwasanaethau cyfyngedig tymor byr

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 3 Hydref 2019

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 31 Hydref 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cynnig i newid y polisi ar drwyddedu SRSLs	3

Atodiad

A1. Diwygiadau arfaethedig i'n nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am SRSL	7
A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	8
A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori	11
A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	12
A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad	13

1. Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â dwy agwedd o bolisi Ofcom ar drwyddedu trwyddedau gwasanaethau cyfyngedig tymor byr (SRSLs).

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Ar hyn o bryd, yn gyffredinol nid yw Ofcom yn dyfarnu mwy na dau SRSL i'r un ymgeisydd mewn blwyddyn, na mwy nag un SRSL y flwyddyn os ydy'r gwasanaeth o fewn yr M25.

Ar hyn o bryd, yn gyffredinol nid yw Ofcom yn dyfarnu SRSLs pan nad yw'n ymddangos bod y gwasanaeth y cynigir ei ddarparu yn wahanol i'r hyn sydd eisoes ar gael ar y gwasanaethau masnachol a chymunedol yn yr ardal darlledu.

Rydym yn cynnig rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ddau bolisi hyn.

- 1.1 Mae Ofcom yn dyfarnu trwyddedau radio tymor byr ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig, sy'n wasanaethau analog ar gyfer darlledu i leoliadau wedi'u diffinio neu ddarpariaeth ar gyfer digwyddiadau penodol.
- 1.2 Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni ein swyddogaethau er mwyn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Mae'r pethau mae'n rhaid i ni eu sicrhau'n cynnwys defnyddio sbectrwm yn y ffordd orau a sicrhau bod ystod eang o wasanaethau darlledu ar gael drwy'r DU sydd – wrth eu hystyried gyda'i gilydd – o ansawdd uchel ac sydd wedi cael eu cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau.
- 1.3 Ar hyn o bryd mae nodiadau cyfarwyddyd Ofcom yn dweud: "Fel rheol ceir dyfarnu hyd at ddau SRSL i unigolyn neu i sefydliad cyn pen unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn olynol, yn yr un ardal o'r DU. Fodd bynnag, fel arfer dim ond un drwydded y flwyddyn fesul ymgeisydd fydd yn cael ei dyfarnu yn ardal Llundain Fwyaf ac ardaloedd eraill o fewn yr M25. Mae hyn oherwydd yr amledd prin iawn sydd ar gael yn yr ardal hon. Yr eithriadau i hyn ydy SRSLs FM pŵer isel iawn mewn stadia...Fel rheol dylid cael cyfnod sylfaenol o bedwar mis rhwng diwedd trwydded gyntaf trwyddedai a dechrau ail drwydded yr un trwyddedai."
- 1.4 Ar hyn o bryd mae nodiadau cyfarwyddyd Ofcom hefyd yn dweud: "Dylai fformat rhaglenni gwasanaeth cyfyngedig tymor byr ehangu'r dewis sydd ar gael i'r gynulleidfa. Dylech chi ddarparu allbwn sy'n wahanol i'r hyn sydd ar gael ar y gwasanaethau masnachol a chymunedol yn yr ardal lle rydych yn dymuno darlledu. Gallwn wrthod ceisiadau nad ydynt yn ymddangos i fod yn wahanol i wasanaeth radio masnachol neu gymunedol yn yr un ardal".
- 1.5 Rydym yn cynnig rhoi'r gorau i ddefnyddio'r polisiau hyn, gan nad ydynt yn ein barn ni wedi cyflawni eu hamcan sef sicrhau bod ystod ehangach o wasanaethau ar gael na gwasanaethau a gynlluniwyd i apelio at amrywiaeth ehangach o chwaethau a diddordebau nag y byddai wedi digwydd fel arall.

- 1.6 Rydym yn disgwyl o ganlyniad ei bod yn debygol y byddai mwy o SRSLs yn bodoli, a gallai rhai ddarlledu cynnwys sy'n debyg i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu gan orsafoedd radio masnachol a chymunedol.

2. Cynnig i newid y polisi ar drwyddedu SRSLs

Beth yw gwasanaethau cyfyngedig?

- 2.1 Mae gwasanaeth cyfyngedig yn golygu gwasanaeth darlledu sain i'w dderbyn naill ai:
- mewn sefydliad penodol yn y DU neu mewn lleoliad arall wedi'i ddiffinio yn y DU; neu
 - at ddibenion digwyddiad penodol sy'n cael ei gynnal yn y DU.

Beth yw SRSLs?

- 2.2 Mae Ofcom yn dyfarnu trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig tymor hir a thymor byr. Fel rheol caiff trwyddedau tymor byr eu dyfarnu am hyd at 28 diwrnod yn olynol. Mae enghreifftiau o ddibenion y caiff SRSLs eu dyfarnu ar eu cyfer yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwyliau cerddorol, digwyddiadau chwaraeon neu sioeau cŵn, ffilmiau sy'n cael eu dangos yn yr awyr agored, gwyliau crefyddol neu ddarllediadau treial i baratoi ar gyfer gwneud cais am drwydded tymor hirach.

Beth yw'r fframwaith cyfreithiol?

- 2.3 Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni ein swyddogaethau er mwyn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Mae'r pethau mae'n rhaid i ni eu sicrhau'n cynnwys defnyddio sbectwm yn y ffordd orau a sicrhau bod ystod eang o wasanaethau darlledu ar gael drwy'r DU sydd – wrth eu hystyried gyda'i gilydd – o ansawdd uchel ac sydd wedi cael eu cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau.

Nodiadau cyfarwyddyd Ofcom: dau SRSL

- 2.4 Mae Ofcom wedi cyhoeddi nodiadau cyfarwyddyd¹ ar sut byddwn yn delio â dyfarnu SRSLs.

- 2.5 Mae paragraffau 1.3 a 1.4 yn darparu:

“Fel rheol ceir dyfarnu hyd at ddau SRSL i unigolyn neu i sefydliad cyn pen unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn olynol, yn yr un ardal o'r DU. Fodd bynnag, fel arfer dim ond un drwydded y flwyddyn fesul ymgeisydd fydd yn cael ei dyfarnu yn ardal Llundain Fwyaf ac ardaloedd eraill o fewn yr M25. Mae hyn oherwydd yr amledd prin iawn sydd ar gael yn yr ardal hon. Yr eithriadau i hyd yw SRSLs FM pŵer isel iawn mewn stadia (edrychwch ar adran 7).

Dylid fel rheol cael cyfnod sylfaenol o bedwar mis rhwng diwedd trwydded gyntaf trwyddedai a dechrau ail drwydded yr un trwyddedai.”

¹ Ofcom, 29 Mawrth 2019, [Trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig tymor byr: nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr a thrwyddedeion](#) (y “nodiadau cyfarwyddyd”).

- 2.6 Mae'r polisi hwn yn bodoli i sicrhau bod pob darpar ymgeisydd yn cael cyfle rhesymol i gael gafael ar y sbectrwm. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd rydym wedi gwyro oddi wrth y polisi hwn ac wedi dyfarnu mwy na dwy drwydded i'r un ymgeisydd yn ystod yr un flwyddyn. Ar ôl adolygu'r achlysuron hyn yn ofalus, mae'n ymddangos nad ydynt wedi atal unrhyw un arall rhag cael gafael ar y sbectrwm. Rydym felly'n cynnig diwygio ein polisi er mwyn i'r nodiadau cyfarwyddyd ddatgan:

"Fel rheol ceir dyfarnu hyd at ddau SRSL i unigolyn neu i sefydliad cyn pen unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn olynol, yn yr un ardal o'r DU. Fel arfer dim ond un drwydded y flwyddyn fesul ymgeisydd fydd yn cael ei dyfarnu yn ardal Llundain Fwyaf ac ardaloedd eraill o fewn yr M25. Mae hyn oherwydd yr amledd prin iawn sydd ar gael yn yr ardal hon. Dylid fel rheol cael cyfnod sylfaenol o bedwar mis rhwng diwedd trwydded trwyddedai a dechrau trwydded nesaf yr un trwyddedai. Yr eithriadau i hyd yw SRSLs FM pŵer isel iawn mewn stadia (edrychwch ar adran 7).

Fodd bynnag, pan fydd ymgeisydd am drwydded eisoes wedi dal dwy drwydded (neu un os yw o fewn yr M25) yn ystod y 12 mis blaenorol, neu os yw'n gwneud cais am drwydded cyn pen pedwar mis o un flaenorol, byddwn yn ystyried y tebygolrwydd y bydd dyfarnu trwydded arall yn ymarferol yn cael effaith negyddol ar eraill sy'n dymuno darlledu, gan ystyried yn benodol y lefelau pŵer sydd eu hangen a natur y gwasanaeth sy'n cael ei drwyddedu. Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau gan y rheini nad ydynt wedi dal trwydded yn ystod y pedwar mis blaenorol ac nad ydynt wedi dal dwy drwydded (neu un drwydded os yw o fewn yr M25) yn y 12 mis blaenorol, fel eithriad i'n dull cyntaf i'r felin (edrychwch ar adrannau 3.1 a 3.2)."

- 2.7 Nid ydym o'r farn y bydd y newid hwn yn cael effaith negyddol ar yr ystod a'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gynulleidfa oedd nac ar unrhyw ddarpar ddefnyddwyr sbectrwm. Rydym o'r farn y bydd hyn yn debygol o hyrwyddo defnyddio sbectrwm yn y ffordd orau a darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau.

Nodiadau cyfarwyddyd Ofcom: chwaethau a diddordebau

- 2.8 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd i sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd – wrth eu hystyried gyda'i gilydd – o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau, mae paragraff 5.2 o nodiadau cyfarwyddyd Ofcom yn datgan:

"Dylai fformat rhaglenni gwasanaeth cyfyngedig tymor byr ehangu'r dewis sydd ar gael i'r gynulleidfa. Dylech chi ddarparu allbwn sy'n wahanol i'r hyn sydd ar gael ar y gwasanaethau masnachol a chymunedol yn yr ardal lle rydych yn dymuno darlledu. Gallwn wrthod ceisiadau nad ydynt yn ymddangos i fod yn wahanol i wasanaeth radio masnachol a chymunedol yn yr un ardal".²

- 2.9 Mae paragraff 5.3 yn delio ag eithriad i'r polisi hwn.

² Edrychwch ar baragraff 5.2 yn y nodiadau cyfarwyddyd.

- 2.10 Diben y polisi hwn oedd sicrhau nad oedd y ffaith bod Ofcom yn dyfarnu SRSL i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu ar gyfer chwaethau a diddordebau a oedd eisoes yn cael eu diwallu'n ddigonol gan wasanaeth radio tymor hir yn rhwystro'r sbectrwm rhag cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau eraill sy'n apelio at chwaethau a diddordebau gwahanol.
- 2.11 Yn ymarferol, mae defnyddio'r polisi dros y pedair blynedd diwethaf wedi effeithio gan fwyaf ar wasanaethau sy'n darlledu dros fis sanctaidd Islamaidd Ramadan, oherwydd bod gwasanaethau radio cymunedol Mwslimaidd yn tueddu i ganolbwyntio'u darllediadau yn ystod y cyfnod Ramadan ar yr un math o gynnwys ag ymgeiswyr am SRSL.
- 2.12 Ym mis Tachwedd 2018, roedd y polisi hwn wedi arwain at benderfyniad Ofcom i beidio â dyfarnu'n SRSL i unrhyw un o'r wyth ymgeisydd yng Nghaerlŷr a oedd yn dymuno darlledu gwasanaethau Ramadan yn ystod 2019. Roedd hyn o ganlyniad o lansio Radio Seerah. Fodd bynnag, fel mae'n digwydd, nid oedd neb wedi gwneud cais i ddarlledu gwasanaeth nad oedd yn ymwneud â Ramadan.
- 2.13 Ym mis Ionawr 2016 roedd y polisi wedi arwain at ein penderfyniad i wrthod cais SRSL i ddarlledu dros Ramadan yn Peterborough oherwydd bod Salaam Radio wedi cael ei lansio. Fodd bynnag, fel mae'n digwydd, nid oedd neb wedi gwneud cais i ddarlledu gwasanaeth nad oedd yn ymwneud â Ramadan.
- 2.14 Mae'n bosibl bod darpar ymgeiswyr eraill wedi dewis peidio â gwneud cais oherwydd y polisi.
- 2.15 Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hon yn dangos nad yw'r polisi wedi bod yn effeithiol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu sy'n apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau na fyddai wedi digwydd petai'r SRSLs dan sylw wedi cael eu dyfarnu, oherwydd nad oedd gwasanaethau eraill wedi cael eu darparu yn yr un ardaloedd.
- 2.16 Felly mae Ofcom yn cynnig dileu paragraffau 5.2 a 5.3 o'n nodiadau cyfarwyddyd.
- 2.17 Rydym yn disgwyl mai canlyniad hyn fyddai ei bod hi'n debygol y byddai mwy o SRSLs yn debygol o ddarlledu cynnwys sy'n debyg i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu gan orsafoedd radio masnachol a chymunedol.
- 2.18 Rydym o'r farn y bydd hyn yn niwtral neu'n fanteisiol i gynulleidfaoedd, yn enwedig cynulleidfaoedd Mwslimaidd, oherwydd y bydd ganddynt ragor o wasanaethau radio ar gael i ddewis ohonynt nag y byddent fel arall. Byddai hefyd o fudd i'r rheini sy'n dymuno gwneud darllediadau.
- 2.19 Rydym yn credu ei fod yn debygol o arwain at ddefnyddio rhagor o sbectrwm, sy'n debygol o fod yn fwy effeithiol.
- 2.20 Mae'n debygol o gael rhywfaint o effaith negyddol ar rai gorsafoedd cymunedol a masnachol, oherwydd gallai rhai o'r SRSLs hyn gystadlu am yr un refeniw hysbysebu yn ystod eu cyfnod darlledu. Fodd bynnag, trwyddedau tymor byr yw SRSLs yn unol â'u diffiniad. At ei gilydd, rydym yn credu beth bynnag bod cystadleuaeth yn tueddu i fod o fudd i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion.

- 2.21 Rydym felly'n ymgynghori ynghylch a ddylid dileu paragraffau 5.2 a 5.3 o'n nodiadau cyfarwyddyd.

Nodiadau cyfarwyddyd arfaethedig Ofcom

- 2.22 Mae Atodiad 1 yn cynnwys copi o'n nodiadau cyfarwyddyd gyda'r newidiadau arfaethedig wedi'u dangos mewn testun wedi'i danlinellu a gyda llinell drwyddo.
- 2.23 Rydym hefyd yn dechrau adolygiad ehangach o'n polisi trwyddedu gwasanaethau cyfyngedig. Rydym yn croesawu mewnbwn at agweddau eraill o'r nodiadau cyfarwyddyd. Rydym yn bwriadu penderfynu ar y materion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn cyn i ni agor y ffenestr ar gyfer ceisiadau ar gyfer y cyfnod pan fydd y galw'n uchel yn 2020. Nid ydym yn debygol o benderfynu ar agweddau eraill o'r nodiadau cyfarwyddyd nes byddwn ni wedi cwblhau ein hadolygiad.

Mae adran trosolwg y ddogfen hon yn grynnodeb syml lefel uchel yn unig. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

A1. Diwygiadau arfaethedig i'n nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am SRS�

Mae ein [diwygiadau arfaethedig](#) (mae'r cynnwys isod ar gael yn Saesneg yn unig) i'n nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am SRS� yn cael eu cyhoeddi ar wahân. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cael eu dangos mewn testun wedi'i danlinellu a gyda llinell drwyddo.

A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ddydd Iau, 31 Hydref 2019.

A2.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr o <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/short-term-restricted-service-licensing-review>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i rsls@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r [ddalen gyflwyno](#). Mae'r cyfeiriad e-bost ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn unig, ac ni fydd yn ddilys ar ôl dydd Iau 31 Hydref 2019.

A2.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Broadcast Licensing and Programme Operations
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A2.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
- Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A2.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A2.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A2.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A2.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn

Atodiad 5. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

- A2.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i rsls@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

- A2.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar [wefan Ofcom](#), cyn gynted ag y byddant yn dod i law.
- A2.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhwch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A2.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A2.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein [Telerau Defnyddio](#).

Y camau nesaf

- A2.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad fis Tachwedd 2019.
- A2.16 Gallwch chi [gofrestru i gael diweddariadau post](#) i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A2.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.
- A2.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A2.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth

Ofcom

Riverside House

2a Southwark Bridge Road

London SE1 9HA

E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

- A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

- A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.
- A3.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.
- A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
- A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

- A3.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn credu ei bod yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad

- A5.1 Ar hyn o bryd, yn gyffredinol nid yw Ofcom yn caniatáu mwy na dau SRSL i'r un ymgeisydd mewn blwyddyn. Ar hyn o bryd, yn gyffredinol nid yw Ofcom yn dyfarnu SRSLs pan nad yw'n ymddangos bod y gwasanaeth y cynigir ei ddarparu yn wahanol i'r hyn sydd eisoes ar gael ar y gwasanaethau masnachol a chymunedol yn yr ardal darlledu.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai Ofcom roi'r gorau i ddefnyddio'r polisi i beidio â rhoi mwy na dau SRSL i'r un ymgeisydd mewn blwyddyn, neu un SRSL os yw'r gwasanaeth o fewn yr M25?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y dylai Ofcom roi'r gorau i ddefnyddio'r polisi i beidio â dyfarnu SRSLs pan nad yw'n ymddangos bod y gwasanaeth y cynigir ei gynnig yn wahanol i'r hyn sydd eisoes ar gael ar y gwasanaethau masnachol a chymunedol yn yr ardal darlledu?